

## **POLISI ADDASIADAU**

---

**CYNNWYS**

<b>1. TAFLEN ADOLYGU .....</b>	<b>3</b>
<b>2. DIBEN .....</b>	<b>4</b>
<b>3. SGÔP .....</b>	<b>4</b>
<b>4. CYFRIFOLDEBAU .....</b>	<b>4</b>
<b>5. MANYLION Y POLISI .....</b>	<b>4</b>
<b>6. FFACTOR RISG .....</b>	<b>9</b>
<b>7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH .....</b>	<b>9</b>
<b>8. DIFFINIADAU AC ACRONYMAU .....</b>	<b>9</b>
<b>9. CYFEIRNODAU .....</b>	<b>10</b>
<b>10. DOGFENNAU PERTHNASOL .....</b>	<b>11</b>
<b>11. ADOLYGU .....</b>	<b>11</b>
<b>12. ATODIAD A: Enghreifftiau a Chanllaw .....</b>	<b>12</b>

---

**1. TAFLEN ADOLYGU**

Rhannu	Disgrifiad Byr o'r Rheswm dros Newid	Perchennog y Ddogfen	Dyddiad Rhannu
1	Newidiadau sy'n cael eu hargymell gan yr Ombwdsman	ER	05/11/2014
2	<b>Wedi'i adolygu gan y Gweithgor Polisi Addasiadau</b>	<b>ER</b>	<b>Mai 2016</b>

---

## 2. DIBEN

- 2.1. Gweledigaeth CCG yw:
- 2.2. Bod yn flaenllaw wrth ddarparu tai o safon - gan gwrdd ag anghenion cwsmeriaid, a pharchu cymunedau.
- 2.3. I gyfrannu tuag at gyflawni ei weledigaeth mae CCG yn darparu gwasanaeth addasiadau. Pwrpas y gwasanaeth hwn yw, lle bynnag y mae hynny'n ymarferol o fewn adnoddau presennol, yw caniatáu i'r tenantiaid sy'n anabl allu byw'n annibynnol yn eu cartrefi mor hir ag y gallant.
- 2.4. Mae'r polisi hwn yn llywodraethu sut y dylid rheoli ceisiadau am addasiadau:
  - i ganolbwyntio addasiadau a chefnogaeth i'r rheiny sydd fwyaf mewn angen.
  - i anelu at gwrdd gydag anghenion sydd wedi'u hasesu
  - i fod yn landlord teg
  - i barhau i fuddsoddi yn ein heiddo
  - i reoli ein heiddo yn effeithiol, ac
  - i ddarganfod ffyrdd newydd o weithio gyda phartneriaid i rannu arbenigedd ac adnoddau

## 3. SGÔP

- 3.1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl denantiaid presennol a darpar denantiaid, a phersonau cymwys eraill, sy'n anabl (yn barhaol a sylweddol) ac sy'n preswyllo mewn tŷ o eiddo Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG). Person cymwys yw person a fyddai'n gymwys i olynu'r denantiaeth fel sydd wedi ei nodi yn TSpol05c – Polisi Olyniaeth CCG.
- 3.2. Nid yw'r polisi hwn yn berthnasol i'r personau hynny y mae eu hangen yn deillio o salwch neu gyflwr dros dro.
- 3.3. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i lety sydd, neu y bwriedir i fod, yn breswylfa neu brif breswylfa y person anabl.

## 4. CYFRIFOLDEBAU

- 4.1. Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Asedau a Buddsoddi yw sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu yn effeithiol a bod y staff wedi eu hyfforddi yn briodol yn y gweithdrefnau sydd ynghlwm â'r polisi hwn.
- 4.2. Cyfrifoldeb y Panel Addasiadau fydd defnyddio'r polisi'n gyson ac yn deg er mwyn penderfynu a blaenoriaethu pa addasiadau a gaiff eu cymeradwyo.

## 5. MANYLION Y POLISI

- 5.1. Rhaid cyfeirio unrhyw achos all fod yn addas ar gyfer addasiadau sylweddol at y Panel Addasiadau, a'r panel hwnnw fydd yn penderfynu pob achos yn ôl eu rhinweddau unigol.

- 
- 5.2. Ni fydd y Panel Addasiadau yn cymeradwyo cais am addasiadau sylweddol oni bai ei fod yn fodlon:
- 5.2.1. Bod y gwaith sydd i'w wneud yn **angenrheidiol** ac yn **briodol** i gwrdd gydag anghenion y preswlydd anabl, a
- 5.2.2. Bod yn **rhesymol** ac yn **ymarferol** i wneud y gwaith perthnasol o ystyried math yr eiddo a'r amgylchedd y mae wedi'i leoli, a
- 5.2.3. Bod y gwaith perthnasol yn rhoi **gwerth am arian** i CCG.
- 5.3. Bydd Meini Prawf Addasiadau Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd yn cael ei ddefnyddio i asesu angen. Gellir canfod enghreifftiau a chanllaw yn Atodiad A.
- 5.4. Wrth ystyried beth fyddai'n cwrdd gydag anghenion wedi'u hasesu preswlydd anabl, bydd y Panel Addasiadau yn cymryd ystyriaeth o'r opsiynau i gwrdd â'r angen. Bydd y rhain yn cynnwys cyfyngu'r gwaith perthnasol i'r rheiny sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol i gwrdd â'r angen sydd wedi'i asesu, defnydd o offer cludadwy i gwrdd â'r angen sydd wedi'i asesu, ac ystyried a yw'n rhesymol cynnig symud i lety amgen sy'n fwy addas.
- 5.5. Llety Amgen sy'n fwy addas**
- 5.6. Wrth ystyried a yw'n rhesymol cynnig symud i lety mwy addas bydd y panel yn cymryd sylw o amgylchiadau'r tenant a chyfraddau trosiant eiddo i werthuso'r tebygolrwydd y byddai llety o'r fath yn dod ar gael o fewn y 6 mis nesaf.
- 5.6.1. Lle mae'r Panel Addasiadau yn ystyried y byddai symud i lety amgen mwy addas yn rhesymol, bydd CCG yn cofnodi yr achos ar gofrestr er mwyn paru'r tenant gydag eiddo addas sy'n dod yn wag. Bydd CCG hefyd yn gweithio gyda'r tenant i gyflwyno cais trosglwyddo i'r gofrestr tai perthnasol.
- 5.6.2. Pe bai'n briodol, bydd CCG yn gwneud man addasiadau ar gyfer y preswlydd anabl a /neu yn argymhell offer cludadwy i leihau'r risg o niwed i'w hunain neu eu gofalwyr tra maent yn disgwyl am lety amgen mwy addas i ddod ar gael.
- 5.6.3. Bydd CCG yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chymdeithasau Tai eraill fel bo'n briodol i gynorthwyo tenantiaid i ganfod a symud i lety amgen mwy addas.
- 5.6.4. Bydd y panel addasiadau yn adolygu ceisiadau am addasiadau sy'n disgwyl am lety amgen mwy addaso fewn 6 mis o benderfyniad gwreiddiol y panel gan roi ystyriaeth i'r trosiant eiddo yn ystod y cyfnod.
- 5.6.5. Pan fydd eiddo posib wedi'i adnabod, bydd y cwsmer yn cael cynnig ymweliad ar y cyd gyda'r Therapydd Galwedigaethol a Swyddog Addasiadau i sicrhau ei fod yn addas a chytuno ar ba addasiadau sydd i'w gwneud cyn i denantiaeth neu drosglwyddiad gael ei gynnig yn ffurfiol. Pe bai'r cwsmer wedyn yn derbyn yr eiddo, bydd yr addasiadau sydd wedi eu cytuno arnynt, cyn belled â'u bod yn parhau i fod yn rhesymol ac ymarferol, yn cael eu gwneud.

5.6.6. Pe bai'n briodol, bydd amrediad o opsiynau yn cael ei gynnig i denantiaid i'w cynorthwyo i symud. Bydd dewisiadau yn unol â ALLpol02c - Polisi Tan-Feddiannaeth CCG.

## **5.7. Mân Addasiadau ac Offer Cludadwy**

5.7.1. Bydd CCG yn gweithio gyda'r tenant a'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn darparu offer cludadwy ac unrhyw fân addasiadau allai fod o gymorth iddynt. Y Swyddog Addasiadau sy'n gyfrifol am gymeradwyo ceisiadau am fân addasiadau a sicrhau bod y broses gywir yn cael ei ddilyn o adnabod yr angen hyd at gwblhau'r gwaith. Cyfrifoldeb y Gwasanaethau Cymdeithasol yw darparu offer cludadwy.

5.7.2. Bydd CCG yn dilyn canllawiau sy'n cael eu hamlinellu ynn nghanllawiau Coleg y Therapyddion Galwedigaethol - 'Minor adaptations without delay'. Bydd staff rheng flaen priodol sy'n cael eu cyflogi gan CCG yn cael eu hyfforddi i allu asesu preswylwyr anabl er mwyn pennu mân addasiadau heb angen ymweliad Therapydd Galwedigaethol.

5.7.3. Gellir canfod enghreifftiau o fân addasiadau yn Atodiad A.

## **5.8. Delio gyda Cheisiadau Brys am Addasiadau Sylweddol**

5.8.1. Pan ddaw cais brys am addasiad sylweddol i law sy'n cwrdd gyda'r meini prawf a nodir ym mharagraffau 5.2.1, 5.2.2 a 5.2.3, bydd y cais yn cael ei ebostio i holl aelodau y Panel Addasiadau i geisio eu barn.

5.8.2. Pe bai cytundeb ar draws y disgyblaethau i'r cais sydd wedi dod i law drwy ebost yn cynnwys: Therapydd Galwedigaethol, Swyddog Technegol, Swyddog Delio â'r Cyhoedd ac Uwch Reolwr, yna yn amodol ar adnoddau, bydd yr addasiad yn cael ei drefnu.

5.8.3. Pe bai ymateb annigonol i'r cais sydd wedi dod i law drwy ebost, neu pe bai'r cais yn cael ei herio, bydd y cais yn cael ei osod ar agenda cyfarfod nesaf o'r Panel Addasiadau ar gyfer trafodaeth yn unol â'r arfer.

5.8.4. Pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu, yna bydd yn cael ei gynnwys ar agenda'r Panel Addasiadau nesaf at bwrpas dilysu a chofnodi'r penderfyniad.

5.8.5. Gellir canfod enghreifftiau o gyfeiriadau e-banel yn Atodiad A.

## **5.9. Cyllido Addasiadau**

5.9.1. Yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael bydd CCG yn darparu cyllideb o fewn ei gynllun busnes i gyllido Mân addasiadau ac addasiadau Sylweddol yn unol â thelerau'r cytundeb trosglwyddo.

5.9.2. Os defnyddiwyd yr holl gyllideb addasiadau mewn blwyddyn, gall CCG ddewis gohirio'r cais am addasiad tan y flwyddyn ariannol ganlynol.

5.9.3. Os gwrthodir caniatáu'r addasiad sylweddol neu pe bai penderfyniad yn cael ei ohirio ar sail cost, mae gan denantiaid yr hawl cyfreithlon i wneud cais uniongyrchol i Gyngor Gwynedd am Grant Cyfleusterau Anabledd (Disabled Facilities Grant - DFG), ond cyfrifoldeb y tenant yw cychwyn cais o'r fath ac nid CCG. Mewn achosion o'r fath bydd yn rhaid i CCG gymeradwyo'r gwaith, fel ag a wnânt pan fydd tenantiaid yn gwneud eu gwelliannau eu hunain i eiddo (gweler L&Fpol03c - Polisi Gwelliannau ac Addasiadau Tenantiaid).

## **5.10. Cwyno am benderfyniad y Panel Addasiadau**

5.10.1. Bydd unrhyw gwyn am benderfyniad y Panel Addasiadau yn cael ei ddelio ag ef yn unol â CCpol01c - Polisi Cwynion a Phryderon

## **5.11. Rhaglen Wella**

5.11.1. Bydd CCG yn ceisio'u gorau i gynnwys addasiadau ceginoedd ac ystafelloedd ymolchi o fewn ei Rhaglen Welliannau.

5.11.2. Mae CCG yn cyflogi Therapyddion Galwedigaethol yn uniongyrchol, sy'n cyfeirio achosion at y Rhaglen Welliannau. Pan wneir cyfeiriadau o'r fath, cânt eu hystyried gan y Panel Addasiadau gan ddefnyddio'r un meini prawf a'r rhai o fewn y polisi hwn, er mwyn sicrhau cysondeb wrth ddelio â cheisiadau am addasiadau tu hwnt i'r Rhaglen Welliannau.

5.11.3. Bydd addasiadau sy'n costio mwy na chost arferol addasiadau'r Rhaglen Welliannau (sy'n cael ei bennu o fewn y Cynllun Busnes) yn cael eu hariannu'n uniongyrchol o'r gyllideb addasiadau.

5.11.4. Pan fydd ceisiadau'n cael eu gwrthod, bydd unrhyw waith o dan y Rhaglen Welliannau a wneir ar yr eiddo hwnnw'n cael ei wneud yn unol â'r gwelliannau safonol (h.y. heb addasiadau).

## **5.12. Addasiadau fel Gwelliannau**

5.12.1. Weithiau mae tenantiaid yn dymuno talu am welliannau eu hunain, naill ai am nad yw'r gwelliant arfaethedig yn cwrdd â meini prawf y polisi hwn neu am resymau eraill.

5.12.2. Rhaid i geisiadau o'r fath gael eu gwneud yn unol â L&Fpol03c - Polisi Gwelliannau ac Addasiadau Tenantiaid.

## **5.13. Addasiadau ac eiddo gwag**

5.13.1. Bydd eiddo sydd wedi ei addasu'n sylweddol ac sy'n dod yn wag yn cael ei baru gyda thenantiaid ar gofrestr CCG o denantiaid sy'n disgwyl am lety amgen mwy addas. Os nad oes modd canfod tenant addas, bydd cais yn cael ei gyflwyno i'r gofrestr tai perthnasol neu restr o ymgeiswyr anabl y gellir cwrdd gyda gofynion yn yr eiddo.

5.13.2. Pe na bai modd canfod tenant addas, yna bydd yr eiddo yn cael ei gyfeirio at y Panel Addasiadau a fydd yn penderfynu a ddylid cadw'r eiddo fel un a addaswyd yn strategol neu ei ddychwelyd i'r stoc tai cyffredinol fel y mae. Gall y Panel benderfynu codi ymwybyddiaeth o'r eiddo gwag ymhlith cyfoedion proffesiynol perthnasol.

#### **5.14. Ceisiadau trosglwyddo a chyfnewidiadau gan denantiaid mewn eiddo wedi eu haddasu**

5.14.1. Yn dilyn gwaith sylweddol, bydd CCG, fel arfer, yn disgwyl i'r Tenant aros yn yr eiddo am o leiaf pum mlynedd. Bydd ceisiadau cyfnewid a throsglwyddo yn ystod y cyfnod hwn yn cael eu gwrthod, oni bai fod yr amgylchiadau a nodir yn 5.14.2 yn berthnasol.

5.14.2. Gall fod eithriadau i'r rheol hon pan fydd anghenion Tenant wedi newid. Bydd unrhyw gais am drosglwyddiad yn cael ei ystyried gan y Panel Addasiadau, a fydd yn penderfynu a oes angen trosglwyddiad neu beidio. Yn y cais am drosglwyddiad dylid nodi pa addasiadau sydd eu hangen yn y tŷ newydd, pa galedi sy'n cael ei ddatrys gan y trosglwyddiad a ddymunir, a sut y gall trosglwyddo i'r tŷ newydd fod o fudd i'r tenant sydd angen yr addasiadau.

#### **5.15. Codi Tâl Gwasanaeth am Addasiadau**

5.15.1. Bydd CCG yn trefnu i wasanaethu a thrwsio offer arbenigol fel bo angen i gwrdd gyda safonau a rheoliadau perthnasol. Bydd Tâl Gwasanaeth yn cael ei godi am ddarparu gwasanaeth i gynnwys cost gwasanaethu a chynnal holl offer arbenigol sy'n cael ei gosod.

5.15.2. Bydd CCG yn ymgynghori efo ac yn cynghori'r tenant ar gost posib cynnal offer arbenigol cyn cyflwyno'r cais i'r panel addasiadau. Bydd gwybodaeth yn cynnwys a yw costau yn gymwys ar gyfer Budd-daliadau Lles.

#### **5.16. Tynnu ac ailgylchu Addasiadau**

5.16.1. Pan na fydd y Tenant y gwnaed yr addasiadau ar ei gyfer yn byw mwyach yn yr eiddo, byddwn yn helpu'r Preswylwyr neu Denantiaid sydd ar ôl i symud i eiddo arall er mwyn i denant anabl arall fedru cael budd o'r addasiadau a wnaed. Bydd CCG yn cefnogi unrhyw denant o'r fath y mae hi'n ofynnol iddynt symud yn unol â'r dewisiadau sydd wedi'u hamlinellu yn ALLpol02c - Polisi Tan-Feddiannaeth CCG

5.16.2. Pan fydd addasiadau, Sylweddol neu Man, wedi cael eu gwneud i eiddo, yna, cedwir y rhain yn yr eiddo fel rheol e.e. lle mae bath wedi'i newid gyda chawod ar lefel y llawr. Gall CCG ofyn i ddarpar denant arwyddo ymwadiad eu bod yn derbyn yr eiddo gyda'r addasiad. Gall CCG hefyd wrthod gadael i'r Tenant newydd dalu i dynnu'r addasiad o'r eiddo.



- 
- 5.16.3. Pan fydd eiddo cyffredin wedi cael addasiadau sylweddol, a phan nad yw CCG yn gallu canfod tenant sy'n gweddu i'r eiddo, gall Uwch Reolwr o fewn CCG benderfynu tynnu yr addasiadau a wnaed, os ystyrir eu bod yn anaddas i deulu sy'n symud mewn i'r eiddo.
  - 5.16.4. Lle bynnag sy'n bosibl bydd CCG yn ail-gylchu unrhyw offer arbenigol nad oes bellach ei angen ar denantiaid, a byddant yn ceisio eu gorau i'w ail-ddefnyddio mewn addasiadau yn y dyfodol, e.e. lifftiau grisiau, hoistau ayyb.
  - 5.16.5. Pe bai offer arbenigol sy'n denu Tal Gwasanaeth yn cael ei tynnu yna bydd y Tal Gwasanaeth yn cael ei ddiddymu.

## **5.17. Rhyddhau cleifion o'r ysbyty**

- 5.17.1. Bydd CCG yn ystyried cyfeiriadau gan Therapyddion Galwedigaethol Iechyd, a lle bynnag y mae hynny'n rhesymol ac ymarferol, gallent wneud man addasiadau er mwyn ceisio ei gwneud yn haws i breswylwr adael yr ysbyty.

## **6. FFACTOR RISG**

- 6.1. Risg nad yw CCG yn blaenoriaethu'r defnydd o'r adnoddau a glustnodwyd ar gyfer addasiadau, gan achosi oedi oherwydd diffyg ariannu i'r tenantiaid hynny a fyddai'n cael y budd mwyaf o gyflawni addasiadau i'w tai.
- 6.2. Risg nad yw CCG yn gwneud y gorau o'r asedau sydd ganddynt eisoes, gan achosi costau ychwanegol drwy osod ac yna gael gwared ag addasiadau amhriodol.

## **7. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

- 7.1. Drwy gyfrwng ei Wasanaeth Addasiadau mae CCG yn ceisio lleihau anghydraddoldeb sy'n cael ei gyflwyno drwy ddyluniad rhai o'n cartrefi.
- 7.2. Bydd CCG yn gwneud pob ymdrech i beidio cyflwyno anghydraddoldebau o'r newydd wrth gyflwyno'r gwasanaeth hwn, er enghraifft, drwy sicrhau bod yr wybodaeth am y gwasanaeth ar gael ar ffurf sy'n rhwydd i gael mynediad ato ac yn hawdd i'n defnyddwyr gwasanaeth ei ddeall.
- 7.3. Wrth ystyried pob achos yn unigol mae CCG yn osgoi darparu datrysiadau safonol nad ydynt o bosib yn cwrdd gydag anghenion yr unigolyn neu sydd o bosib yn annerbyniol o ran diwylliant.

## **8. DIFFINIADAU AC ACRONYMAU**

- 8.1. Yn y polisi hwn, y diffiniad o "addasiad" yw newid neu ychwanegiad i unrhyw agwedd o fewn cartref sy'n ei gwneud yn haws neu'n fwy diogel i berson anabl allu defnyddio'r eiddo.
- 8.2. Mae Gorlenwi Statudol yn cael ei ddiffinio o fewn Deddf Tai 1985

- 
- 8.3. Addasiadau bychain yw "cymhorthion rhesymol sy'n helpu tenantiaid i fedru symud yn ddiogel ac yn annibynnol o fewn eu cartrefi". Bydd y rhain yn cynnwys canllawiau, rampiau bychain, stepiau, systemau mynediad i adeiladau, tapiau lifar, goleuadau allanol a socedi trydan ychwanegol, ond nid offer cludadwy. Nid yw addasiadau bychain yn rhai drud (fel arfer maent yn costio llai na £1000), nid oes angen llawer o gynllunio ar eu cyfer, a gallant gael eu cynnig yn gyflym iawn. Gellir cymeradwyo'r rhain drwy i gydweithwyr awdurdodedig lenwi ffurflen gyfeirio syml.
- 8.4. Diffiniad "addasiadau sylweddol" yw naill ai addasiad unigol neu becyn o addasiadau sy'n cwrdd ag anghenion mwy dwys. Rhaid cael manyleb gan Therapydd Galwedigaethol, a chynllunio manwl gan y Swyddog Addasiadau. Gall pecyn addasiadau sylweddol gynnwys addasiadau bychain hefyd.
- 8.5. "Therapydd Galwedigaethol" (OT) yw person cofrestredig proffesiynol yn ymwneud ag iechyd sydd wedi ei hyfforddi i asesu cleientiaid ac asesu effaith problemau iechyd ar eu bywyd pob dydd. Gall Therapydd Galwedigaethol gynllunio a chynnig offer ac addasiadau er mwyn gwella safon bywyd pob dydd cleientiaid. Mae CCG yn cyflogi eu Therapydd Galwedigaethol eu hunain, yn bennaf er mwyn cynorthwyo gyda Rhaglen Welliannau CCG. Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Therapyddion Galwedigaethol sydd wedi eu cyflogi gan Gyngor Gwynedd.
- 8.6. Swyddog Addasiadau - yw person technegol sy'n rheoli'r gwaith addasiadau ac sy'n gweithio'n agos gyda'r Therapyddion Galwedigaethol, swyddogion tai a thenantiaid er mwyn cytuno ar y cynlluniau mwyaf addas; a pharatoi a gweinyddu'r addasiadau hyd nes y byddant wedi eu cwblhau.
- 8.7. Swyddogion Gosod sy'n gyfrifol am reoli tenantiaethau ac ail-osod eiddo gwag.
- 8.8. Swyddog Gwasanaeth Tenantiaeth sy'n gyfrifol am les tenantiaid
- 8.9. Bydd y Panel Addasiadau'n cynnwys Therapyddion Galwedigaethol, Swyddogion Gosod, Swyddogion Addasiadau, Swyddogion Gwasanaeth Tenantiaeth, a chynrychiolwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai Cyngor Gwynedd os yw hynny'n berthnasol i'r achosion dan sylw.

## 9. CYFEIRNODAU

- 9.1. Meini Prawf Addasiadau Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd
- 9.2. Safonau SATC
- 9.3. Consortiwm Addasiadau Tai 'Home Adaptations for Disabled People A Detailed Guide to Related Legislation, Guidance and Good Practice'
- 9.4. Coleg y Therapyddion Galwedigaethol 'Minor Adaptations Without Delay'
- 9.5. Deddf Tai 1985
- 9.6. Deddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996
- 9.7. Deddf Cydraddoldeb 2010

---

**10. DOGFENNAU PERTHNASOL**

- 10.1. L&Fpol03c - Polisi Gwelliannau ac Addasiadau Tenantiaid
- 10.2. CCpol01c - Polisi Cwynion a Phryderon
- 10.3. TSpol03c - Polisi Aseinio a Chyfnwid Tenantiaeth
- 10.4. TSpol05c - Polisi Olyniaeth
- 10.5. ALLf25, ALLf26, ALLf27, ALLf28, ALLf29 Cytundebau Tenantiaeth CCG

**11. ADOLYGU**

- 11.1. Bydd y polisi yn cael ei adolygu bob dwy flynedd.

## 12. ATODIAD A: Enghreifftiau a Chanllaw

### 12.1. Enghreifftiau lle na fyddai gwaith yn angenrheidiol nac ychwaith yn briodol

- Lle na fyddai addasiadau yn cwrdd gyda'r angen sydd wedi'i asesu neu yn cyflwyno risgiau sylweddol eraill.
- Gwneud addasiadau lle byddai'n anodd i'r preswlydd anabl gael mynediad at yr addasid oherwydd, er enghraifft, grisiau serth neu ddrysau cul ayyb.
- Lle mae'r addasiadau presennol yn cwrdd â gofynion Meini Prawf Addasiadau Cyngor Gwynedd
- Lle mai'r prif reswm dros yr addasiadau yw ceisio delio gyda'r ffaith fod gormod o denantiaid yn yr eiddo.

### 12.2. Enghreifftiau lle na fyddai gwaith yn rhesymol nac ychwaith yn ymarferol

- Lle mae pryderon ynglŷn â math, oed a chyflwr yr eiddo
- Lle mae nodweddion pensaernïol a strwythurol eiddo'n golygu fod rhai mathau o addasiadau'n anaddas neu anymarferol, e.e. mewn rhai eiddo an-nhraddodiadol neu fflatiau lefel uchel
- Lle mae angen caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer y gwaith, na fyddai'n debygol o gael ei ganiatáu.
- Lle mae'r addasiadau'n debygol o achosi anghyfleustra i breswylwyr eraill neu darfu ar gymdigion sy'n byw drws nesaf i'r eiddo.
- Lle mae'r amgylchedd lleoliad yr eiddo yn ei gwneud hi'n anodd i'r preswlydd anabl fyw ynddo a chymryd rhan yn y gymuned e.e. brynïau, grisiau serth

### 12.3. Enghreifftiau lle na fyddai'r gwaith yn rhoi **gwerth am arian**:

- Mewn unrhyw dŷ lle cyflwynid cais gan y Tenant i brynu neu gaffael yr eiddo hwnnw.
- Mewn unrhyw eiddo lle mae'r tenant yn disgwyl am drosglwyddiad i eiddo arall a hynny yn debygol o fewn 6 mis.
- Lle mae CCG yn dod ag achos meddiant yn erbyn y Tenant
- Lle mae angen gwaith costus er mwyn eu hail-addasu ar gyfer y preswlydd dilynol, wedi i'r denantiaeth gyfredol ddod i ben.

### 12.4. Enghreifftiau o **fân addasiadau**:

- Rheiliau fel rheiliau gaffael neu rheiliau-llaw grisiau
- Rampiau trothwy mewnol neu allanol
- Intercom mynediad i'r tŷ neu gloch ddrws sy'n goleuo
- Tapiâu lifer, handlenni cwpwrdd neu gloeon, offer agor ffenestri

---

12.5. Enghreifftiau o geisiadau brys y gallai e-banel benderfynu arnynt:

- Cais am hoist nenfwd i leihau'r risg o niwed i ofalwyr mewn eiddo sydd eisoes wedi'i addasu.
- Cais am lifft grisiau syth i leihau'r risg o niwed i'r preswlydd neu ofalwyr